Eich Cymuned, Eich Dewis

A oes gennych chi brosiect atal trosedd fyddai'n elwa o gefnogaeth ariannol?

Os mai'r ateb yw 'Oes' yna fe hoffem glywed gennych.

Mae arian a atafaelwyd gan droseddwyr lleol drwy DET (Deddf Elw Troseddau) ac arian gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gael i gymunedau lleol ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau fydd yn helpu i daclo trosedd a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rydym nawr yn derbyn ceisiadau gan grwpiau am gyfran o'r £42mil sydd ar gael ledled Gogledd Cymru ar gyfer y Cynllun Peilot Cyllideb Gyfranogol.

Mae £7mil wedi'i glustnodi ar gyfer pob ardal awdurdod lleol ac mi fydd yr ymgeiswyr yn cael gwahoddiad i gyflwyno eu cynigion i banel lleol fydd wedyn yn penderfynu pa brosiect fydd yn mynd ymlaen i'r bleidlais gyhoeddus derfynol. Gall pob prosiect llwyddiannus gael hyd at £3.5mil.

Gall y cyhoedd bleidleisio am eu hoff brosiect ar-lein ac yn fuan fe gyhoeddir manylion pellach ar sut i bleidleisio.

Mae ffurflenni cais a phecynnau cyfarwyddo nawr ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk a gwefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd www.northwales-pcc.gov.uk

Meddai Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: "Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn fy swydd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd rwyf wedi llunio fy mholisïau mwyaf effeithiol ar beth rydych chi, y cyhoedd wedi dweud wrthyf. Yr enghreifftiau mwyaf amlwg yw datblygiad y tîm troseddau cefn gwlad a recriwtio rhagor o swyddogion.

" Hoffwn adeiladu ar yr egwyddor hon drwy beilota cynllun grant cyllideb gyfranogol. Golyga hyn y bydd cymunedau Gogledd Cymru yn gallu penderfynu pa brosiectau sy'n cael cefnogaeth ariannol. Rwy'n gwybod fod yna gymunedau a sefydliadau sydd â phrosiectau arloesol fyddai'n gallu helpu i wneud ein cymunedau'n ddiogelach. Bydd y cynllun peilot hwn yn rhoi'r pŵer i wneud penderfyniadau yn nwylo ein cymunedau drwy ganiatáu iddynt benderfynu pa brosiectau i'w cefnogi.

"Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n rhannol drwy arian a gafwyd yn sgil y Ddeddf Elw Troseddau (DET); arian sydd wedi cael ei adennill gan droseddwyr a euogfarnwyd sy'n cael ei ddychwelyd i'w ail-fuddsoddi yng nghymunedau Gogledd Cymru. Bydd y rhan arall yn arian a glustnodwyd ar gyfer Cronfa'r Comisiynydd.

Fe ychwanegodd: "Edrychaf ymlaen at dderbyn ceisiadau am nawdd ledled Gogledd Cymru ac at glywed eich barn ar ba brosiectau ddylai gael cefnogaeth y gronfa hon."

Meddai'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros dro Simon Shaw: "Mae'n bleser gan Heddlu Gogledd Cymru gefnogi'r Peilot Cyllideb Gyfranogol hwn mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Heddlu a

Throsedd. Mae adborth gan ein cymunedau, partneriaid a'n staff yn dangos bod lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth.

"Nod y gronfa beilot hon yw rhoi cyfle i gymunedau a sefydliadau lleol ddatblygu prosiectau arloesol fydd yn helpu i daclo'r materion hyn. Efallai y byddai'r ymgeiswyr yn elwa o siarad am eu cynigion gyda'u tîm plismona cymdogaeth.

Fe ychwanegodd: "Hoffwn ddymuno'n dda i'r ymgeiswyr ac edrychwn ymlaen at dderbyn y cynigion."

Nodiadau:

- **Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr fod yn sefydliad gwirfoddol cyfansoddiadol, yn grŵp cymunedol neu'n elusen sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru.**
- **Mae'n rhaid i'r ceisiadau gael eu hanfon ar ffurf ebost i participatorybudgetfund@nthwales.pnn.police.uk**
- **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw hanner dydd, dydd Sadwrn 30 Tachwedd 2013.**
- **Mae'n rhaid i'r prosiectau fod wedi'u cwblhau, a'r arian fod wedi'i wario erbyn 31 Mawrth 2014.**
- **Os hoffech siarad ag aelod o'ch tîm plismona lleol er mwyn trafod eich cais ewch i wefan Heddlu Gogledd Cymru www.north-wales.police.uk/your_neighbourhood**

Your Community, Your Choice

Do you have a crime reduction project which would benefit from financial support?

If the answer is 'Yes' we would like to hear from you.

Money seized from local criminals via POCA (Proceeds of Crime) and funds from the Police and Crime Commissioner are being made available for local communities to use on projects which will help cut crime and reduce anti-social behaviour.

Bids are now being accepted from groups for a share of £42k across North Wales for the Participatory Budgeting Pilot Scheme.

Each local authority area has been allocated £7k and applicants will be invited to present their bids to a local panel who will then decide which project will go forward to a final public vote. Each winning project can receive a maximum of £3.5k.

Public voting will take place online and further details regarding how to vote will be publicised in due course.

Application forms and briefing packs are now available on the North Wales Police website www.north-wales.police.uk and the Police and Crime Commissioner website www.northwales-pcc.gov.uk

Winston Roddick, Police and Crime Commissioner for North Wales said: "During my first year in office as Police and Crime Commissioner I have built my most effective policies on what you the public have told me. The most obvious examples are the development of the rural crime team and additional police officers.

"I want to build on this approach by piloting a participatory budgeting grant scheme. This means that the communities of north Wales will be able to decide which projects are given financial support. I know there are communities and organisations who have innovative projects that can help make our communities safer. This pilot scheme will put the decision-making power in the hands of our communities by letting them decide which projects to support.

"The scheme will be funded partly through monies recovered through the Proceeds of Crime Act (POCA), which is the money accumulated by convicted criminals, being returned for reinvestment in the communities of north Wales. The other part will be provided from the funds which have been allocated to the Commissioner's Fund.

He added: "I look forward to receiving applications for funding from across north Wales and to hear your views on which projects should be supported by this fund."

Temporary Assistant Chief Constable Simon Shaw said: "North Wales Police are pleased to support this Participatory Budget Pilot in partnership with the Police and Crime Commissioner. Feedback from our communities, partners and staff show that the reduction of crime and anti-social behavior is a key priority.

"This pilot fund aims to give local communities and organisations the opportunity to develop innovative projects that will help address these issues. Applicants might find it useful to speak to neighbourhood policing teams about their proposals.

He added: "I would like to wish applicants the best of luck and we very much look forward to receiving the proposals."

Notes:

- **Applicants must be a properly constituted voluntary organisation, community group or charity working in North Wales.**
- **Completed applications must be returned via email to participatorybudgetfund@nthwales.pnn.police.uk**
- **The closing date for applications is 12:00 noon on Saturday 30th November 2013.**
- **Projects must be completed and grant monies spent by 31st March 2014.**
- **If you would like to speak to a member of your local policing team to discuss your proposal please visit the North Wales Police website www.north-wales.police.uk/your_neighbourhood**

1.11.13